Cyfranogiad Disgyblion yng Nghymru
Mae Erthygl 12 o Gynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) yn nodi hawl plant a phobl ifanc i fynegi barn a chael y farn honno wedi'i chymryd i ystyriaeth ar unrhyw fater sydd yn effeithio arnynt. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i alluogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yng Nghymru. Darperir cyfleoedd trwy gyfrwng cynghorau ysgol a'r prosesau ehangach i wneud penderfyniadau mewn ysgolion, fforymau ieuenctid, a Funky Dragon (Cynulliad Plant a Phobl Ifanc Cymru).

Cynghorau Ysgol
Mae'n ofynnol i bob ysgol yng Nghymru gael cyngor ysgol fel bod llais disgyblion (Rheoliadau Cyngor Ysgol (Cymru) 2005), yn cael ei gynrychioli yn natblygiad a gweithrediad polisïau a gweithdrefnau ysgol. Mae cynghorau ysgol yn rhoi cyfle i ddisgyblion drafod materion sydd yn berthynol i'w hysgol ac i wneud cynrychioliadau i'r corff llywodraethu ac i'r pennaeth. Mae ymchwil wedi dangos bod cynnwys plant a phobl ifanc mewn gwneud penderfyniadau o fudd i unigolion, cyrff a'r gymuned ehangach. Mae Estyn yn gynyddol yn gwrando ar ddysgwyr, ac mae cyfranogiad disgyblion yn llinyn pwysig sydd yn rhedeg trwy Fframwaith Effeithlonrwydd Ysgol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Disgybl Lywodraethwyr Cyswllt a Chysylltiadau'r Cyngor Ysgol gyda'r Corff Llywodraethu
Rhaid rhoi cyfle i'r cyngor ysgol enwebu un neu ddau o'i aelodau o flynyddoedd 11 – 13 i fod yn ddisgybl lywodraethwyr cyswllt. Oni bai bod rhesymau i'w datgymhwyso o dan Atodlen 5 o Reoliadau Llywodraeth Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005, rhaid i'r corff llywodraethu dderbyn yr enwebiad a phenodi disgybl lywodraethwyr cyswllt. Diben disgybl lywodraethwyr cyswllt yw mynegi llais cyngor yr ysgol mewn cyfarfodydd y corff llywodraethu ac yn eu tro cyfleu materion o'r corff llywodraethu i'r cyngor ysgol. Nhw ydy'r cyswllt rhwng disgyblion a'r corff llywodraethu. Rhaid i gorff llywodraethu ystyried

GOVERNORS WALES
LLYWODRAETHWYR CYMRU

FFEIL FFEITHIAU 02/08

CYFRANOGIAD DISGYBLION, DISGYBL LYWODRAETHWYR CYSWLLT A CYNGHORAU YSGOL

LLYWODRAETHWYR CYMRU
www.llywodraethwyrcymru.org.uk

LLINELL GYMORTH: 0845 60 20 100

Tŷ Empire, Llawr Cyntaf
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FN

Ffôn: 029 2048 7858
Ffacs: 029 2048 7843
E-bost:
contact@governorswales.org.uk

unrhyw fater a godir gan gyngor yr ysgol a darparu ymateb. Os yw'r mater a godir gan y cyngor ysgol mewn ysgrifen mae disgwyl i'r corff llywodraethu ymateb hefyd mewn ysgrifen.

Manteision Disgybl Lywodraethwyr Cyswllt
Mae disgybl lywodraethwyr cyswllt mewn sefyllfa dda i gyfrannu at ystyriaeth corff llywodraethu o faterion fel:

- Ffurfio ac adolygu polisïau sydd yn effeithio ar ddisgyblion fel gwisg ysgol, polisïau gwrth fwlio, addysg rhyw, cysylltiadau disgyblion athrawon, ymddygiad a phresenoldeb;
- Datblygiad mentrau ysgol gyfan a newid fel rhaglenni ar gyfer dinasyddiaeth byd-eang, ysgolion iach ac eco-ysgolion;
- Datblygiad a darpariaeth cyfleusterau ysgol;
- Ffurfio ac adolygu cynllun datblygu/gwelliant ysgol;
- Cyfraniad i unrhyw gynllun ôl arolwg;
- Adolygu'r cwricwlwm a sut i wella addysgu a dysgu; a
- Cysylltiadau gyda'r gymuned leol a phrosiectau lleol.

Nifer o gyfyngiadau sydd yn berthynol i ddisgybl lywodraethwyr cyswllt:

- Mae disgybl lywodraethwyr cyswllt yn ychwanegol at aelodau eraill y corff llywodraethu;
- Nid yw disgybl lywodraethwyr cyswllt yn cyfrif tuag at gworwm corff llywodraethu neu bwyllgor corff llywodraethu;
- Ni chaiff disgybl lywodraethwyr cyswllt fod yn glerc i'r corff llywodraethu nac i bwyllgor corff llywodraethu;
- Ni all disgybl lywodraethwyr cyswllt bleidleisio mewn cyfarfodydd llawn o'r corff llywodraethu;
- Gall disgybl lywodraethwyr cyswllt ddal swydd am flwyddyn ac wedi hynny gallant gael eu hail benodi os ydynt yn parhau i fod yn aelodau o'r cyngor ysgol;
- Gall y corff llywodraethu gael gwared o ddisgybl lywodraethwyr cyswllt yn yr un modd ag y gellir

cael gwared o riant lywodraethwyr a llywodraethwyr partneriaeth o'r corff llywodraethu.

Aelodaeth Pwyllgorau
Gall disgybl lywodraethwyr cyswllt fod yn aelodau o bwyllgorau corff llywodraethu anstatudol a gallant bleidleisio yn y pwyllgorau hynny os yw'r corff llywodraethu yn rhoi hawliau pleidleisio iddynt.
Ni all disgybl lywodraethwyr cyswllt fod yn aelodau o bwyllgorau statudol canlynol y corff llywodraethu:

- Pwyllgor disgyblu/diswyddo staff
- Pwyllgor apêl disgyblu/diswyddo staff
- Pwyllgor disgyblu a gwaharddiadau disgyblion
- Pwyllgor derbyniadau
- Pwyllgor cwynion staff

Materion Sensitif a Chyfrinachol
Efallai nad yw'n briodol i ddisgybl lywodraethwyr cyswllt wybod am, na bod yn rhan o drafodaeth am rhai materion sensitif. Ac felly gall y corff llywodraethu eithrio disgybl lywodraethwyr cyswllt o unrhyw drafodaeth sydd yn ymwneud â:

- Materion staffio fel cyflog, disgyblaeth, rheolaeth perfformiad, cwynion a diswyddiadau;
- derbyniadau;
- disgyblu disgyblion unigol;
- ethol, penodi a chael gwared o lywodraethwyr;
- cyllid ac ymrwymiadau ariannol y corff llywodraethu; a
- mewn ysgol a gynorthwyir yn wirfoddol, Gweithred Ymddiriedolaeth.

Mae gan y corff llywodraethu'r dewis hefyd i eithrio unrhyw ddisgybl lywodraethwr cyswllt o unrhyw drafodaeth sydd, oherwydd ei natur, yn cael ei ystyried yn gyfrinachol, ac yn fater a ddylai aros yn gyfrinachol.

Nid yw'r pŵer dewisol hwn wedi'i fwriadu i roi esgus i'r corff llywodraethu eithrio disgybl lywodraethwyr cyswllt o drafodaethau heb reswm da. Dylai fod tybiaeth bod disgybl lywodraethwyr cyswllt yn cymryd rhan mewn canran sylweddol o fusnes y corff llywodraethu. Mae'n bwysig bod disgybl lywodraethwyr cyswllt yn deall cwmpas a chyfyngiadau eu rôl cyn ei dderbyn.

Cydweithio
Yn ychwanegol at ddisgybl lywodraethwyr cyswllt, anogir cyrff llywodraethu i gytuno gyda'r cyngor ysgol ar ddulliau o gydweithio. Mae'r rhain yn debygol o gynnwys:

- y cyngor ysgol yn gwahodd llywodraethwyr i fynychu cyfarfodydd y cyngor ac/neu gofyn am gyfarfodydd gyda chynrychiolwyr y corff llywodraethu yn rheolaidd i ystyried materion penodol;
- aelodau o'r cyngor ysgol ar wahân i ddisgybl lywodraethwyr cyswllt yn mynychu cyfarfodydd y corff llywodraethu fel arsylwyr;
- y corff llywodraethu yn adrodd ar y cyngor ysgol a'i weithgarwch a'i gyflawniadau yn ei adroddiad blynyddol i rieni;
- cofnodion cyfarfodydd y cyngor ysgol yn cael eu cynnwys ar agenda'r corff llywodraethu a'r corff llywodraethu'n ymateb yn ffurfiol i'r materion a godir gan y cyngor ysgol.

Cefnogaeth i Ddisgybl Lywodraethwyr Cyswllt
Dylai fod rhywfaint o ystyriaeth i natur ac amseru cyfarfodydd cyrff llywodraethu fel eu bod yn hygyrch i ddisgybl lywodraethwyr cyswllt. Cynhelir nifer o gyfarfodydd corff llywodraethu ar ôl oriau ysgol ac mae angen i'r ysgol sicrhau bod disgybl lywodraethwyr cyswllt yn gallu teithio adref yn ddiogel. Dylai'r corff llywodraethu neilltuo arian yn y gyllideb ysgol ar gyfer unrhyw gostau sydd yn deillio o drefniadau o'r fath. Gall lefel iaith a jargon a ddefnyddir mewn cyfarfodydd fod yn rwystr arall i gyfranogiad. Mae'n bwysig bod disgybl lywodraethwyr cyswllt yn derbyn unrhyw bapurau cyn cyfarfodydd ac ar ffurf y maent yn ei ddeall. Dylid ystyried penodi llywodraethwr cyswllt i gefnogi disgybl lywodraethwyr cyswllt ac i weithredu fel cyswllt gweithredol rhwng y corff llywodraethu a'r cyngor ysgol.

Mae angen i gyrff llywodraethu sicrhau bod cyfarfodydd yn cael eu rheoli'n effeithiol a bod gan ddisgybl lywodraethwyr cyswllt ddigon o gyfle i gymryd rhan yn effeithiol. Yng ngoleuni'r ffaith y gellir eithrio disgybl lywodraethwyr cyswllt rhag cymryd rhan mewn rhai meysydd busnes, argymhellir bod yr agenda yn cael ei threfnu fel bod eitemau'n cael eu grwpio. Gellid ystyried materion sensitif yn rhan gyntaf neu olaf y cyfarfod a'r disgybl lywodraethwyr cyswllt yn mynychu yn unol â hynny. Gallai adroddiad gan y disgybl lywodraethwyr cyswllt fod yn eitem sefydlog ar yr agenda gan godi eu statws oherwydd hynny.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Cynghorau Ysgol - www.cynghorauysgolcymru.org.uk a hefyd yn y dogfennau canlynol:

- Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005 (Offeryn Statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru 2005 Rhif 3200 (Cy. 326).

- Canllawiau i Gyrff Llywodraethu ar Sefydlu a Gweithredu Cynghorau Ysgol: Cylchlythyr NAFW 42/2006 ar gael yn: www.new.wales.gov.uk.

D.S.: Dylid darllen y Ffeil Ffeithiau hon ar y cyd gyda'r ddeddfwriaeth a'r canllaw a restrir uchod a gyda gwybodaeth a gynhyrchir gan eich AALl ac awdurdod esgobaeth lle mae hynny'n briodol.